# Bwletin lles Tymor yr Hâf 2024

Gobeithio bod pawb wedi cael cyfle i fwynhau'r Pasg. Mae'r ysgol yn parhau i ganolbwyntio ar 3 maes sy'n bwysig i'r tîm lles y flwyddyn hon sef: **presenoldeb, gwisg ysgol ac adnabod llwyddiant**. Mae cefnogaeth ar gael i rieni i ddeall a chefnogi eu plant i gyrraedd ein targedau o fynychu'r ysgol a wynebu heriau bywyd, a hynny drwy arweiniad yr awdurdod iechyd i ddisgyblion, rhieni ac ysgolion ar y safle wê newydd.

Mae Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wedi creu adnodd gwych sydd ar eu gwefan https://bcuhb.nhs.wales/. Ar y y safle mae pennod benodol i ddeall ac adnabod lle i gael cymorth i bobl ifanc o dan y pennawd *'Iechyd pobl ifanc yn eu harddegau o bersbectif y person ifanc a'r rhiant'*. Mae'r safle yn rhoi gwybodaeth wych am sut i gefnogi iechyd meddwl eich plentyn, diogelwch ar-lein, cyrsiau rhiantu a chyngor am fwyta'n iach i'ch plentyn.

https://bipbc.gig.cymru/cyngor-iechyd/dechrau-gorau/oedolion-ifanc/

Cofiwch bod cefnogaeth bellach ar gael gan y tîm bugeiliol yn yr ysgol, ond mae cyfle i ddisgyblion gael cyngor gan y nyrs ysgol (Allana Owen) mewn sesiynau *drop -in* wythnosol yn ystafell 22 pob amser cinio dydd Llun. Nid oes angen caniatâd gan yr ysgol ac mae'r ddarpariaeth yn hollol gyfrinachol.

## Presenoldeb

Mae presenoldeb yn flaenoriaeth ysgol gyfan. I blant lwyddo, maen rhaid iddynt fynychu gwersi ac felly, mynychu'r ysgol.
Mae bod yn yr ysgol yn statudol tan diwedd blwyddyn 11. Ein targed i'ch plentyn ydi mynychu'r ysgol bob dydd. Yn naturiol, mae pawb yn sâl ar adegau, a gofynnwn yn garedig i chi, rieni / gwarcheidwaid, gysylltu â'r ysgol i'n hysbysu o absenoldeb eich plentyn a'r diwrnod dychwelyd. Mae cefnogaeth ar gael gan ein tîm bugeiliol a'r Swyddog Lles.

Mae ychydig o newidiadau i'r tîm bugeiliol a phwy fydd yn cefnogi eich plentyn fel pennaeth blwyddyn eleni.

| | |
|---|---|
| Bl.7 | Mr Paul Magee |
| Bl.8 | Mr John Arwel Jones |
| Bl.9 | Mr Brandon Rickards |
| Bl.10 | Mr Carwyn Owen |
| Bl.11 | Mr Sam Elis |
| Bl.12/13 | Mrs Awel Glyn |

**Gwisg ysgol:**

Disgwylir i ddisgyblion fynychu'r ysgol mewn **gwisg ysgol lawn.** Mae rhestr o'r wisg gyflawn ar ein gwefan https://www.ysgoluwchraddbodedern.org/en/pupils/school-uniform

Diolch i rieni sydd wedi cyfrannu tuag at y banc gwisg ysgol, rydym yn fwy na hapus i barhau i dderbyn cyfraniadau.

Yn fuan, bydd yr ysgol yn gofyn am farn rhieni cyn penderfynu a oes angen addasu'r wisg ysgol.

We hope that everyone had a pluasant Easter break. The school welfare team's focus continues to be on: **attendance, school uniform and reconise success**. Support is available for parents to understand and support their children's needs in response to our targets of attending school and facing the challenges of life. More advice from the local health board on their new website.

Betsi Cadwaladr'r health board have launched a brilliant new resource on their website https://bcuhb.nhs.wales/ . The website gives a wealth of advice from understanding where to receive support from the perspective of parents and young people, providing information and advice on mental health, online safety, parenting courses and healthy eating.

https://bcuhb.nhs.wales/health-advice/best-start/teenager/information-for-parents/

Support is available on the school website and can be accessed through our walk-in health hub every Monday lunchtime in room 22, under the guidance of our school nurse, Allana Owen. This service is confidential and pupils do not need permission from the school to attend.

**Attendance**

Attendance is a whole school focus and is paramount to any child's success. Pupils achieve when they attend lessons, therefore must attend school.
Attending school is statutory until the end of year 11. Our target for your child is to attend every day. If they are ill, it's important that parents / guardians contact the school to inform us why your child is absent and when they'll be returning. Support is available from our pastoral team and Educational Welfare Officer.

There are some changes to our pastoral team this year and the ones supporting your child as head of year.

| | |
|---|---|
| Yr.7 | Mr Paul Magee |
| Yr.8 | Mr John Arwel Jones |
| Yr.9 | Mr Brandon Rickards |
| Yr.10 | Mr Carwyn Owen |
| Yr.11 | Mr Sam Elis |
| Yr.12/13 | Mrs Awel Glyn |

**School uniform**

We expect every pupil to attend school in a **full school uniform**. A list of the full school uniform is available on our website.
https://www.ysgoluwchraddbodedern.org/en/pupils/school-uniform
Following the success of our clothes bank last year, we will continue to offer clean and tidy clothes to our pupils. We'd like to thank everyone who have contributed to our clothes bank.

The school will be in contact shortly to ask for parents' opinion about changing the school uniform before making a final decision.